# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd M Kearn** **Ward:Y Pîl**

## Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli'r Pîl ar 4 Mai 2017 ac rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cynghorau eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 64 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Cyfarfûm ag etholwyr niferus ar sail wyneb yn wyneb er mwyn eu helpu a'u cynghori ar faterion a godwyd ganddynt. Mae manylion perthnasol am y rhain wedi'u trosglwyddo i'r cyngor cymuned er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu briffio'n briodol.

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda chyngor cymuned y Pîl fel y cadeirydd presennol, gan ddarparu sesiynau briffio i gyd-gynghorwyr cymuned lleol ar wybodaeth a gafwyd gan y cyngor bwrdeistref.

Gweithiais law yn llaw ag eglwysi lleol a'n canolfannau cymunedol yn fy ward er mwyn sicrhau bod pryderon am faterion cymunedol yn cael eu datrys.

Cymeradwyais y cais cynllunio dros eglwys leol ynghylch cynllun datblygu cymunedol newydd yn unol ag amcanion Llywodraeth y Cynulliad.

Rwyf wedi rhoi £5000 o'r gronfa gymunedol i Gyngor Cymuned y Pîl ar gyfer darparu cylchfan wedi'i haddasu'n arbennig ar gyfer plant anabl yn y parc newydd yn Pandy Crescent y Pîl a ddarperir gan Gyngor Cymuned y Pîl

Cyfarfûm ag etholwyr lleol ynghylch cais cynllunio lleol y maent yn ei wrthwynebu.

Cysylltais â Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod y cynefin lleol yn cael ei warchod.

Cysylltais â Chymoedd i'r Arfordir ynghylch pryderon a godwyd gan etholwyr.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

**Y Cynghorydd** M Kearns **Dyddiad:**